

Creu Ffilmiau: cynhyrchu gwaith animeiddio stop-symudiad 2D

Trosolwg

Diben y gweithgaredd hwn yw creu ffilm animeiddio fer 2D. Bydd y disgyblion yn:

- Trafod genres ffilmiau
- Dysgu am dechnegau creu ffilmiau a'r broses gynhyrchu
- Gwyllo ffilmiau animeiddio byrion a dysgu am strwythur stori
- Gweithio mewn grwpiau o dri i ysgrifennu eu stori fer eu hunain
- Creu bwrdd stori ar gyfer eu ffilm
- Creu set a phypedau yn defnyddio papur a cherdyn
- Gwneud tasgau rhifedd yn seiliedig ar gyfrifo cyfradd fframiau
- Saethu oddi uchod gan ddefnyddio iPad i greu 10 eiliad o animeiddio 2D
- Dysgu sut i olygu
- Creu trac sain gan ddefnyddio effeithiau sain

Cyfoethogi

- Cyfleoedd posibl i gydweithio gyda storiwyr, awduron, artistiaid Foley (pobl sy'n creu synau ar gyfer ffilm/teledu/radio), cynllunwyr sain, animeiddwyr, ymarferwyr addysg ffilm, canolfannau a sefydliadau celfyddydau lleol.

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Dyma brif rannau'r Cwricwlwm y mae'r gweithgaredd cyfoethog hwn yn ymdrin â hwy:

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh)

Llythrennedd Digidol

Cerddoriaeth: Sgiliau: P1, P3, P6-8; C2, C4; A1-3

Addysg Gorfforol: Sgiliau: CA 2- 6, 8

Adnoddau sy'n cael eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

- Adnodd 1: Cardiau genre ffilmiau
- Adnodd 2: Taflen waith templed strwythur stori
- Adnodd 3: Taflen waith templed bwrdd stori
- Adnodd 4: Taflen waith 6 math o saethu
- Adnodd 5: Bwrdd stori
- Adnodd 6: Taflen waith gwneud pypedau
- Adnodd 7: Taflen waith rhifedd 'Cyfrifo Amseru'
- Clipiau fideo ar gyfer dau genre o Despicable Me, Wall-E.
- Clip fideo gan 'Cat-man-do' Simon's Cat
- Clipiau fideo gan BBC Art Ninja

- Canllawiau Defnyddio iMotion ac iMovie i Athrawon - <http://windingsnake.com>

Adnoddau y mae angen sicrhau eu bod ar gael

- Cyfrifiadur/mynediad i'r rhyngwrwyd
- Amrywiaeth o ddeunyddiau celf gan gynnwys cerdyn a 'blue tac'
- iPads
- Papur A3 ac A4
- Ap iMovie
- Ap iMotion
- Siswrn
- Glud
- Offerynnau cerdd

Tasg 1 Paratoi

- Cardiau genre (Adnodd 1: Cardiau genre ffilmiau)
- Dolenni clipiau fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=JjSpGeBqJR8> <https://www.youtube.com/watch?v=QHH3iSeDBLo>
- Mynediad i wefan IMDB: <http://www.imdb.com/> (http://www.imdb.com/title/tt1690953/?ref=fn_al_tt_4)
(http://www.imdb.com/title/tt0910970/?ref=nv_sr_1)

Tasg 1: Beth rydym yn ei wybod am genres ffilmiau?	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh
<p>Bydd y disgyblion yn creu eu ffilm animeiddio 2D eu hunain. Nod Tasg 1 yw rhoi gwybodaeth gefndir iddyn nhw ac enghreifftiau o'r mathau o ffilmiau y gallent eu gwneud.</p> <ul style="list-style-type: none"> • TRAFOD – Mewn grwpiau o dri, y disgyblion i drafod beth yw eu hoff ffilm? Beth sy'n dda amdani? • GWYLIO – Clip fideo o Despicable Me 2 (A minion in love 2:55), Clip fideo o Wall-E (Wall-E at work, 1:18) – <i>gweler y dolenni o dan yr adran Paratoi uchod.</i> • TRAFOD – Gan ddefnyddio'r cardiau genre, y disgyblion i drafod ym mha genre mae eu hoff ffilmiau a genres y ddau glip fideo. Mae'r rhan fwyaf o ffilmiau yn perthyn i fwy nag un genre ffilm. Chwiliwch IMDB i wirio ym mha gategori y mae eu hoff ffilmiau a beth yw genre'r ddau glip fideo. (Defnyddiwch y ddolen uchod. Chwiliwch am y ffilm yr hoffech ddysgu amdani. Ar ôl i chi ei dewis bydd genre'r ffilm i'w weld ar ran uchaf y sgrin o dan deitl y ffilm.) 	<p>Gwahoddwch ymarferydd addysg ffilm lleol i'r ysgol i roi mewnbwn arbenigol.</p> <p>Cysylltwch â'r tîm addysg yn Ffilm Cymru i gael cyngor. Mae ganddo restr o addysgwyr ffilmiau ledled Cymru.</p> <p>http://www.ffilmcymruwales.com/index.php/cy/dysgu</p>	<p>Llafaredd</p> <p>LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLG1: gwrando'n ofalus LLG3: ymateb i eraill LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p>

Tasg 2 Paratoi

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Dolenni clipiau fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=uOHvZjiDANg> a <http://www.bbc.co.uk/guides/zcqnf8#z8bj7ty>
- Adnodd 2: Taflen waith templed strwythur stori – 3 taflen

<p>Y broses creu ffilmiau.</p> <p>Caiff pob ffilm ei chreu gan ddefnyddio'r un broses. Cyn-gynhyrchu, wedyn cynhyrchu, wedi'i ddilyn gan y cam terfynol sef Ôl-gynhyrchu.</p> <p>Tasg 2: Cyn-gynhyrchu – Adrodd stori</p>	<p>Cydweithredu</p>	<p>Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh</p>
<p><i>Mae angen i'r disgyblion benderfynu ar destun eu ffilm. Nod Tasg 2 yw dechrau meddwl am syniadau ar gyfer eu ffilm fer.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD/YSGRIFENNU – Bydd y disgyblion yn dychwelyd i'w gwaith blaenorol yn Nhasg 1 i drafod eu hoff ffilmiau. Gan ddefnyddio'r templed strwythur stori bydd y disgyblion yn dadansoddi eu hoff ffilmiau. Beth sy'n digwydd ar y dechrau, yn y canol ac ar ddiwedd y ffilm? ○ GWYLIO/YSGRIFENNU – Clip fideo o Simon's Cat (Hot Spot 0:45). Gan ddefnyddio'r templed strwythur stori bydd y disgyblion yn dadansoddi Hot Spot. Beth sy'n digwydd ar y dechrau, yn y canol ac ar ddiwedd y ffilm? Ym mha genre mae'r ffilm fer hon? ○ TRAFOD/CREU/YSGRIFENNU Mewn grwpiau o dri, bydd y disgyblion yn cydweithio ac yn penderfynu ar genre a ffocws eu ffilm animeiddio fer. Gan ddefnyddio'r templed strwythur stori bydd y disgyblion yn gweithio mewn grwpiau o dri i benderfynu beth sy'n digwydd ar y dechrau, yn y canol ac ar ddiwedd eu ffilm. Cofiwch fod yn gryno ac yn bwrpasol! 	<p>Storiwr neu awdur lleol i ymweld â'r ysgol i siarad am adrodd storïau a strwythur naratif. Cysylltwch â http://www.literaturewales.org/ i weld cronfa ddata o awduron.</p> <p>Gwahoddwch ymarferydd addysg ffilm lleol i'r ysgol i roi mewnbwn arbenigol. Cysylltwch â'r tîm addysg yn Ffilm Cymru i gael cyngor.</p> <p>http://www.ffilmcymruwales.com/index.php/cy/dysgu</p>	<p>Llafaredd</p> <p>LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLG1: gwrandod'n ofalus LLG3: ymateb i eraill LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Ysgrifennu</p> <p>YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu YS1: defnyddio strwythurau penodol wrth ysgrifennu YS2: trefnu gwaith ysgrifennu YS4: paragraffau a threfnu gwaith ysgrifennu mewn dilyniant YS5: nodweddion gweledol YI2: datblygu geirfa</p>

Tasg 3 Paratoi

- Mynediad i'r rhyngwyd
- Dolenni clipiau fideo: <http://www.bbc.co.uk/guides/zcqnfg8#z8bj7ty>
<https://www.youtube.com/watch?v=DVXMQMUDITs&list=PL237BAEB953E7C766>
- Adnodd 3, 4 a 5:
- [Bwrdd stori Brushing Teeth](#) enghreifftiol
- [Taflen waith mathau o saethiadau Dennis the Menace](#)
- [Templed bwrdd stori gwag ar gyfer pob disgybl](#)

Tasg 3: Cyn-gynhyrchu – Bwrdd stori Rhestr weledol o gyfarwyddiadau a gynhyrchir o sgrïpt, amlinelliad fesul cam neu stori yw bwrdd stori. Caiff ei greu yn ystod cam cyn-gynhyrchu'r broses creu ffilm. Fe'i defnyddir hefyd gan y gwneuthurwyr ffilmiau i drefnu'r broses o greu ffilm ymlaen llaw. Yn ystod y broses gynhyrchu fe'i defnyddir gan y criw i olrhain cynnydd ac i roi cyfarwyddyd.	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd FfLIRh posibl
<p>Nod Tasg 3 yw creu bwrdd stori ar gyfer eu ffilm animeiddio fer.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD – Beth yw bwrdd stori? ○ GWYLIO – Disgyblion i wylïo Art Ninja (cliciwch ar y bwrdd stori yn adran 2). ○ DARLLEN/TRAFOD/YSGRIFENNU – Gan ddefnyddio'r daflen waith bwrdd stori enghreifftiol ar 'Brushing Teeth' fel cyfeiriad ynghyd â'r daflen waith mathau o saethiadau Dennis the Menace, bydd y disgyblion yn creu bwrdd stori ar gyfer eu ffilm. Bydd y disgyblion yn parhau i weithio yn eu grwpiau o dri. Bydd pob disgybl yn creu bwrdd 	<p>Gwahoddwch artist bwrdd stori proffesiynol i weithio gyda'r dysgwyr.</p> <p>Cysylltwch â'r tîm addysg yn Ffilm Cymru i gael cyngor.</p> <p>http://www.ffmpegymruwales.com/index.php/cy/dysgu</p>	<p>Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLG1: gwrando'n ofalus LLG3: ymateb i eraill LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrsasol</p> <p>Darllen DS2: strategaethau darllen i ddatgodi geiriau DS3: darllen testunau gwahanol</p>

<p>stori ar gyfer dechrau, canol neu ddiwedd eu stori a grëwyd yn Nhasg 2.</p>	<p>Mae Into Film wedi llunio eu canllawiau defnydd eu hunain a gellir eu gweld ar lein. http://www.filmclub.org/resources/#id/</p>	<p>DS5: cipddarllen (sgimio) a llithr ddarllen (sganio) DS8: testunau ar sgrin DD3: adnabod gwybodaeth DD4: dod i gasgliad DYD2: ymateb i destun DYD6: gwerthuso cynnwys</p> <p>Ysgrifennu YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu YS1: defnyddio strwythurau penodol wrth ysgrifennu YS2: trefnu gwaith ysgrifennu YS4: paragraffau a threfnu gwaith ysgrifennu mewn dilyniant YS5: nodweddion gweledol YI2: datblygu geirfa YG5: sillafu</p>
--	---	--

Tasg 4 Paratoi

- Taflen Sut i wneud pyped stop-symudiad 2D (Adnodd 6)
- Cerdyn lliw cymysg
- Pensiliau
- Siswrn
- Blu Tac
- Papur A3 ac A4
- Glud

Tasg 4: Creu – Creu set a phypedau	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh	
<p><i>Mae'r disgyblion wedi ysgrifennu stori ac wedi creu bwrdd stori. Nawr gallant ddechrau creu! Nod Tasg 4 yw creu set 2D a phypedau.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ○ CREU – Gan ddefnyddio darn o bapur A3, bydd disgyblion yn tynnu llun o'r set ar gyfer eu ffilm. Dylid defnyddio'r daflen gyfan. Gellir tynnu lluniau â phensil, eu dargopïo neu hyd yn oed eu torri allan a'u gludo ar y papur. Bydd angen eu darlunio yn ôl graddfa. Y set yw'r lleoliad lle bydd y stori yn digwydd. Os bydd dechrau, canol a diwedd y stori yn digwydd yn yr un lle, bydd angen i'r disgyblion weithio gyda'i gilydd i ddylunio set ar gyfer y ffilm. ○ DARLLEN/CREU – Gan ddefnyddio'r daflen waith <i>Sut i wneud pypedau stop-symudiad 2D</i>, bydd y disgyblion yn creu eu pypedau. Gellir defnyddio darluniadau a ffotograffau. Os dim ond un cymeriad sydd yn y ffilm, dylai pob aelod o'r grŵp ddylunio fersiwn wahanol i'w defnyddio yn y ffilm. 	<p>Cydweithredu Gwahoddwch animeiddwyr, neu theatr pypedau cysgod i ddod i'r ysgol i gynnal gweithdai creu pypedau papur. http://www.pyped.co.uk/directory.php http://www.puppettheatre.wales.co.uk</p> <p>Cysylltwch â'r tîm addysg yn Ffilm Cymru i gael cyngor. http://www.ffilmcymru.wales.com/index.php/cy/dysgu</p>	<p>Llythrennedd <i>Darllen</i> DS2: strategaethau darllen DS3: darllen testunau gwahanol DS5: cipddarllen (sgimio) a llithr ddarllen (sganio) DS6: dibenion a nodweddion gwahanol destunau DD3: adnabod gwybodaeth DYD3: gwneud cysylltiadau</p> <p>Rhifedd <i>Datblygu ymresymu rhifyddol</i> CA2.1 trosglwyddo sgiliau CA2.4 strategaethau meddwl ac ysgrifenedig CA2.7 amcangyfrif CA2.17: strategaethau gwirio</p> <p>Defnyddio sgiliau rhif Rh2: darllen ac ysgrifennu rhifau Rh3: cymharu rhifau</p> <p>Mesur M1: mesur hyd M2: perimedr M3: unedau metrig</p>

Tasg 5 Paratoi

- Mynediad i'r rhyngwyd
- Taflen waith Cyfrifo Amser (Adnodd 7)

Tasg 5: Cynhyrchu – Cyfrifo Amser	Cydwethredu	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh
<p>Bydd gan ddisgyblion daflen waith Cyfrifo Amser/cyfradd fframiau a dylen nhw weithio ar y gweithgaredd hwn yn unigol. Nod y gweithgaredd hwn yw cyfrifo faint o fframiau y bydd eu hangen ar y disgyblion i greu a ffilmio ar gyfer eu hanimeiddiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD – O safbwynt ffilm ac animeiddiad, cyfradd fframiau yw nifer y delweddau sydd ar y sgrin fesul eiliad. Faint o fframiau mae gwneuthurwyr ffilmiau yn eu defnyddio o fewn 10 eiliad yn eu barn hwy? O fewn gwaith animeiddio mae eiliad fel arfer yn cynnwys 25 o fframiau. Pam mae cymaint o fframiau? ○ CYFRIFO – Gan ddefnyddio'r daflen waith <i>Cyfrifo Amser</i> bydd y disgyblion yn cyfrifo fframiau gwahanol a'r fframiau fesul eiliad ar gyfer eu ffilmiau eu hunain. Dylen nhw ddangos sut maen nhw wedi cyfrifo eu cyfraddau fframiau. Bydd y disgyblion yn gweithio yn ôl 12 ffrâm fesul eiliad. Gallant olygu eu sgrïpt i gyfateb i'r fframiau. 	<p>Gwahoddwch animeiddwyr proffesiynol i weithio gyda'r disgyblion.</p> <p>Cysylltwch â'r tîm addysg yn Ffilm Cymru i gael cyngor.</p> <p>http://www.ffmpegcymruwales.com/index.php/cy/dysgu</p>	<p>Llythrennedd Rhifedd Datblygu ymresymu rhifyddol CA2.1 trosglwyddo sgiliau CA2.2 camau nesaf CA2.3 technegau priodol CA2.4 strategaethau meddwl ac ysgrifenedig CA2.7 amcangyfrif CA2.11: egluro canlyniadau CA2.14: defnyddio nodiant priodol CA2.17: gwirio atebion CA2.18: dehongli atebion CA2.19: dod i gasgliadau</p> <p>Defnyddio sgiliau rhif Rh2: darllen ac ysgrifennu rhifau Rh3: cymharu ac amcangyfrif rhifau Rh12: adio a thynnu Rh15: talgrynnu</p> <p>Mesur M5: amseru digwyddiadau</p>

Tasg 6 Paratoi

- iPad
- ap iMotion HD
- Canllaw Defnyddio iMotion i Athrawon
- Clip fideo Art Ninja <http://www.bbc.co.uk/guides/zcqnfg8> (Ewch i 'How do i get started?' yn adran 4)

Tasg 6: Cynhyrchu – Animeiddio eich ffilm.	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh
<p>Mae'r disgyblion wedi ysgrifennu stori fer, wedi creu bwrdd stori ac wedi cyfrifo faint o fframiau fesul eiliad y mae'n rhaid iddyn nhw eu creu ar gyfer eu hanimeiddiad. Nod Tasg 6 yw creu'r animeiddiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ GWYLIO – Disgyblion i wyllo Art Ninja 'How do I get started?' Mae pedwar fideo byr i'w gwyllo. ○ CYNLLUNIO - Gan ddefnyddio nodiadau, diagram a geiriau allweddol, bydd y disgyblion yn cynllunio amlinelliad o'u ffilm. ○ CREU - Gan ddefnyddio iPad, bydd disgyblion yn saethu eu ffilm oddi uchod. (Mae Art Ninja yn saethu o'r ochr). I saethu oddi uchod, gallwch ddefnyddio pentyrrau o lyfrau neu flociau i godi'r iPad fel bod ei gefn yn wynebu'r ddesg, dylai'r sgrin fod yn wynebu'n syth i fyny. Os nad yw'r disgybl yn defnyddio sadiwr, byddai o gymorth pe bai'n cadw marciwr ar y ddesg ar gyfer cornel y camera er mwyn sicrhau bod pob saethiad yn cael ei ffilmio o'r un man. Bob tro y cymerir ffrâm (llun) bydd angen i'r pyped symud fesul dipyn. Peidiwch ag anghofio defnyddio eich byrddau stori fel rhestr wirio ar gyfer pob saethiad . 	<p>Gwahoddwch animeiddwyr proffesiynol i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion er mwyn helpu i greu eu dilyniannau animeiddio.</p> <p>Cysylltwch â'r tîm addysg yn Ffilm Cymru i gael cyngor.</p> <p>http://www.ffilmcymruwales.com/index.php/cy/dysgu</p>	<p>Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLG1: gwrando'n ofalus LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Ysgrifennu YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol YY3: cynllunio ysgrifennu YS1: defnyddio strwythurau penodol wrth ysgrifennu YI2: geirfa</p>

- **GWYLIO/ARFARNU/TRAFOD** – Ar ôl i'r disgyblion orffen saethu eu fframiau gallant wyllo dilyniannau animeiddio ei gilydd. A oes unrhyw beth sy'n hynod effeithiol? A oes unrhyw wallau o ran dilyniant e.e. llaw yn y saethiad?

Tasg 7 Paratoi

- iPad
- ap iMovie
Canllaw Defnyddio iMovie i Athrawon <http://windingsnake.com>

Tasg 7: Ôl-gynhyrchu – Golygu eich ffilm.	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh
<p>Argymhellir bod yr athrawon yn ymglyfarwyddo â'r canllaw defnyddio iMovie cyn y dasg hon.</p> <p>Mae'r disgyblion wedi creu eu dilyniannau animeiddio. Nod Tasg 7 yw bod y disgyblion yn golygu'r tair rhan gyda'i gilydd fel grŵp er mwyn creu ffilm animeiddio fer 30 eiliad.</p> <p>GWYLIO – Disgyblion i eistedd gyda'i gilydd yn eu grŵp i wyllo eu dilyniannau. Bydd y disgyblion yn allforio eu dilyniannau oddi ar iMotion er mwyn iddyn nhw ddechrau golygu'r 3 rhan o'r ffilm gyda'i gilydd. Darperir cyfarwyddiadau yn y Canllaw Defnyddio iMovie.</p> <p>GOLYGU/CREU – Ar ôl i'r dilyniannau gael eu tynnu oddi ar iMotion ac y gellir edrych ar y fideo yn ap lluniau'r iPad, gall y disgyblion olygu eu ffilmiau gan ddefnyddio iMovie.</p>	<p>Gwahoddwch animeiddwyr proffesiynol i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion i helpu i animeiddio eu ffilmiau.</p> <p>Cysylltwch â'r tîm yn Ffilm Cymru i gael cyngor.</p> <p>http://www.ffilmcymruwal.es.com/index.php/en/film-educators</p>	<p>Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLG1: gwranddo'n ofalus LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p>

TASG 8 PARATOI

- iPad
- Canllaw Defnyddio iMovie i Athrawon: <http://windingsnake.com>
- Offerynnau
- Gwrthrychau eraill sy'n gwneud synau diddorol e.e. ffoil neu gragen cneuen goco,
- Clip fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=Bh-wZ3Tx6gA>
- Clip fideo: <http://www.filmclub.org/behind-the-scenes/details/319/how-to-sound>

Tasg 8: Ôl-gynhyrchu – Recordio trac sain.	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd y FfLIRh
<p>Ar y cyd, mae'r disgyblion wedi golygu eu dilyniannau animeiddio i greu un ffilm fer. Nod Tasg 8 yw creu ac ychwanegu trac sain i'w ffilm.</p> <p>GWYLIO – Y disgyblion i wylio fideo ar YouTube ynghylch defnyddio foley/effeithiau sain mewn ffilm. Gweler y ddolen uchod. Y disgyblion i wylio ffilm fer arall <i>How to record sound</i>. Gweler y ddolen uchod.</p> <p>GWYLIO/ARFARNU – Y disgyblion i wylio eu ffilmiau wedi'u hanimeiddio. Yn eu grwpiau, bydd y disgyblion yn trafod sut y defnyddir effeithiau sain i greu effeithiau mewn ffilmiau a gwaith animeiddio ac yn penderfynu pa synau y mae angen eu creu a'u recordio ar gyfer eu ffilmiau eu hunain.</p> <p>ARBROFI – Bydd y disgyblion yn arbrofi gyda defnyddio offerynnau cerdd, eu lleisiau a gwrthrychau o'r ystafell ddisbarth er mwyn creu effeithiau sain gwahanol.</p>	<p>Gwahoddwch Artist Foley neu Ddylunydd Sain i'r ysgol i weithio gyda'r disgyblion. I helpu i greu a recordio effeithiau sain ar gyfer eu cynrychiadau. (Cysylltwch drwy Ffilm Cymru)</p> <p>Cysylltwch â'r tîm addysg yn Ffilm Cymru i gael cyngor ar addysgwyr ffilm ledled Cymru. (Mae ganddynt restr). http://www.ffilmcymruwales.com/index.php/en/film-educators</p>	<p>Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLG1: gwrando'n ofalus LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p>

<p>CREU – Gan ddefnyddio cyfarwyddiadau a roddir yn y Canllaw Defnyddio iMovie i Athrawon, bydd y disgyblion yn creu trac sain. Yna caiff y trac sain ei ychwanegu at y ffilm.</p>	<p>Gwahoddwch athro cerddoriaeth i'r dosbarth i helpu gyda'r gwaith.</p>	
---	--	--

Gweithgareddau pellach a awgrymir

- Gweithdai ysgrifennu sgript – gall y disgyblion droi eu storiâu'n sgriptiau. Mae offeryn creu sgript ar gael ar Amazon Storywriter. Bydd angen cyfrif Amazon arnoch i ddefnyddio'r offeryn hwn.
- Gweithdai cerddoriaeth a chyfansoddi – gall y disgyblion weithio gyda cherddor neu gyfansoddwr i greu sgôr ar gyfer eu ffilmiau. Mae'r ap Garage Band ar gael ac mae llawer o ganllawiau ar sut i'w ddefnyddio ar gael ar YouTube.
- Gweithdai creu propiau a set 3D – gall y disgyblion saethu o'r ochr a chreu set 3D gan ddefnyddio bocsys cardfwrdd. Gweler Art Ninja CBBC.
- Mae canllawiau creu ffilmiau eraill ar gael drwy gyfrwng Into Film. Dilynwch y ddolen hon i weld yr adnoddau ar-lein:
<http://www.filmclub.org/resources/#id/25>

Asesu mewn perthynas â'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd

Gallai'r dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Rhestrir y prif feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y tablau isod.

Llythrennedd			
Llinyn	Elfen	Agwedd	
Llafaredd ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	
		Gwranddo	
		Cydweithio a thrafod	
Darllen ar draws y cwricwlwm	Dod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio	Strategaethau darllen	

Creu Ffilmiau: cynhyrchu gwaith animeiddio stop-symudiad 2D

Cyfnod Allweddol 2

Ysgrifennu creadigol | Dawns | Drama | Ffilm a'r cyfryngau | Cerddoriaeth | Celfyddydau gweledol a chymhwysol

	Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	
		Ymateb a dadansoddi	
Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	
		Strwythur a threfn	
	Ysgrifennu'n gywir	Iaith	
		Cystrawen; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen	

Rhifedd		
Llinyn	Elfen	
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	
	Cynrychioli a chyfathrebu	
	Adolygu	
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	
	Amcangyfrif a gwirio	
	Rheoli arian	
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	

Creu Ffilmiau: cynhyrchu gwaith animeiddio stop-symudiad 2D

Cyfnod Allweddol 2

Ysgrifennu creadigol | Dawns | Drama | Ffilm a'r cyfryngau | Cerddoriaeth | Celfyddydau gweledol a chymhwysol

	Amser	
	Tymheredd	
	Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle	
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau	